# DRAFFT

# Cynllun Gwerthu a Marchnata Pren 2027 i 2031

## Cyflwyniad

Rydym yn geidwaid dros 120,000 hectar, sef saith y cant o dir Cymru, ac mae'r tir hwn yn cynnwys Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, amddiffynfeydd rhag llifogydd, a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.

Mae Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn adnodd coetir ledled Cymru. Rydym yn ei rheoli i greu buddion llesiant amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol i bobl Cymru a thu hwnt, nawr ac i genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r ystad goetir yn helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd drwy gloi carbon. Mae hefyd yn darparu cynefinoedd gwerthfawr i blanhigion a bywyd gwyllt ac yn cynnig lle ar gyfer hamdden. Mae'n darparu cyflenwad da o bren, sy'n cefnogi cyflogaeth a bywoliaethau gwledig.

Ein diben craidd yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a chymhwyso'r egwyddorion fel y'u nodir yn **Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** fel ceidwaid Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.

Mae'r coetiroedd rydyn ni'n eu rheoli ar ran Gweinidogion Cymru yn falch o gael sêl bendith y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC®), ac yn meddu ar safon y Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd (PEFC).

Mae cael eich ardystio'n annibynnol yn dangos bod yr adnoddau hyn yn cael eu rheoli'n gynaliadwy mewn ffordd sy'n cynnal bioamrywiaeth a phrosesau ecolegol naturiol, yn ogystal â bod o fudd cymdeithasol ac economaidd. Gall hyn roi hyder i'r farchnad bren fod ein cyflenwad pren yn gynaliadwy ac mae'n helpu i roi hyder i brynwyr ynghylch cynhyrchion pren.

# Ein Cynllun Gwerthu a Marchnata Pren drafft ar gyfer 2027 i 2031

Mae'r cynllun hwn yn ddogfen ategol i'n Strategaeth Ddrafft ar Dwf a Gwerth Cynaliadwy, sy'n anelu at gynllunio, cyflawni, tyfu a mesur incwm, gwerth ac effeithlonrwydd gweithgareddau masnachol yn effeithiol o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r strategaeth ddrafft yn amlinellu ein syniadau, ein cyfeiriad a'n hymrwymiadau lefel uchel ym meysydd datblygu busnes, masnach a hamdden, ynni adnewyddadwy, a gwerthu a marchnata pren. Mae'r Cynllun Gwerthu a Marchnata Pren drafft hwn yn amlinellu sut rydym yn anelu at gyflawni ein hamcanion.

Mae hefyd yn amlinellu cyfraniad marchnata pren at ddiben a rôl Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn y ddogfen, yn benodol y bedwaredd egwyddor. Mae hyn yn nodi y bydd defnydd cynhyrchiol o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn cael ei gynnal o fewn terfynau cynaliadwy ac yn cyfrannu at ffyniant.

*Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymdrechu i sicrhau cydbwysedd rhesymol rhwng … cynhyrchu a chyflenwi pren … a gwarchod a gwella harddwch naturiol a gwarchod fflora, ffawna, a nodweddion daearegol neu ffisiograffigol o ddiddordeb arbennig (Deddf Coedwigaeth 1967).*

Mae Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Pren 2025: Gwneud i Bren Weithio i Gymru yn nodi manteision economi bren gref a'r gofyniad i gynyddu'r cyflenwad o bren a dyfir yng Nghymru i ddiwallu'r galw yn y dyfodol. Mae'n ystyried rôl Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn y dyfodol o ran cyfrannu at gynhyrchu pren a chynyddu'r cyfeintiau o bren a all ddod i'r farchnad. Mae angen inni gydbwyso hyn yn ofalus i sicrhau bod cynaeafu yn diwallu ein hanghenion wrth reoli'r ystâd i gyflawni ein hamcanion o ran yr Hinsawdd, Natur a Chynaliadwyedd mewn ffordd ddiogel a chymesur.

Mae ein Cynllun Gwerthu a Marchnata Pren drafft yn disgrifio ein hymrwymiad i gydbwyso ein hamcanion ochr yn ochr â chyflenwad pren o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru am y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2027 a 2031. Y nod yw galluogi busnesau newydd, cwsmeriaid pren, cyflenwyr cynaeafu, a'r diwydiant prosesu i gynllunio, tyfu a buddsoddi. Mae hwn yn gynllun sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n tynnu ar ddata o'r rhagolwg cynhyrchu diweddaraf fel arwydd o'r cyfeintiau posibl sydd ar gael i'w cynaeafu.

Mae ein portffolio o gynlluniau adnoddau coedwigoedd, fel y'u cymeradwywyd gan y rheoleiddiwr, yn dangos ein hymrwymiad i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac yn amlinellu'r rhaglen o dorri coed yn gynaliadwy ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.
Mae ein Cynllun Gwerthu a Marchnata Pren yn cymhwyso tair prif egwyddor i'n gweithgareddau gwerthu pren:

> Egwyddor I – **Sicrhau** gwerthiannau pren diogel, hygyrch, agored, teg, cystadleuol a thryloyw, drwy lywodraethiant cryf.
>
> Egwyddor II – **Darparu** pren i alluogi potensial twf gwerth ychwanegol i'r diwydiant coed, gan chwilio am gyfleoedd i gynyddu cyfaint y pren y gellir ei gynaeafu.
>
> Egwyddor III – **Galluogi** rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru drwy weithgarwch gwerthu pren.

Rydym am ystyried eich barn wrth i ni ddatblygu ein Cynllun Gweithredu Gwerthu a Marchnata Pren. Fe welwch awgrymiadau ar gyfer cwestiynau o dan bob un o'n themâu isod.

Y ffordd orau o rannu eich adborth gyda ni yw ar-lein. Gallwch hefyd gyflwyno eich barn drwy e-bostio timber.sales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu ffonio 0300 065 3000 (Llun-Gwener, 9am-5pm). Y dyddiad cau ar gyfer adborth yw 08 Mawrth 2026.

# Llywodraethiant a safonau

Caiff ein rheolaeth o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru ei harchwilio'n allanol bob blwyddyn yn ôl safonau coedwigaeth y DU a safonau rhyngwladol ar gyfer ardystio coedwigoedd, fel y nodir yn Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig (UKWAS).

Mae ardystiad yn wiriad annibynnol o'n rheolaeth gynaliadwy o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, gan gyrraedd safonau rhyngwladol y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC®) a'r Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd (PEFC). Mae hyn yn sicrhau y gallwn ardystio ein cynhyrchion o goedwigoedd a rhoi hyder i gwsmeriaid.

Ein cod trwydded gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC®) yw FSC-C115912 a'n trwydded PEFC yw PEFC/16-40-1003.

Mae'r Safonau Llywodraethu Gwerthu Pren, ynghyd â'r canllawiau a'r cyfarwyddiadau cysylltiedig, yn nodi fframwaith i sicrhau bod pren o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn cael ei werthu'n ddiogel, yn hygyrch, yn deg, yn agored, yn gystadleuol ac yn dryloyw. Byddwn yn parhau i esblygu ein Safonau Llywodraethu Gwerthu Pren i sicrhau'r incwm gorau i reoli Ystad Goetir Llywodraeth Cymru a gweinyddu ased cyhoeddus yn briodol.

## Camau gweithredu:

**CAM GWEITHREDU 1: Cynnal ardystiad FSC® a PEFC trwy ddilysiad annibynnol.**

**CAM GWEITHREDU 2: Cymhwyso ac esblygu ein Safonau Llywodraethu Gwerthu Pren i sicrhau gwerthiannau pren diogel, hygyrch, teg, agored, cystadleuol a thryloyw.**

## Cwestiynau:

Pa mor bwysig yw ardystiad coedwigaeth annibynnol Ystad Goetir Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu pren i'r diwydiant coed a chynnal hyder yn y farchnad?

Pa mor effeithiol yw mesurau llywodraethu presennol Cyfoeth Naturiol Cymru o ran sicrhau gwerthiannau pren teg, agored, cystadleuol a thryloyw?

# Ein hymrwymiad i gyfaint y farchnad, cynhyrchu a rhagweld

Mae ein rhagolwg cynhyrchu yn rhoi syniad o faint o goed sy'n tyfu a'r pren fydd ar gael i'w gynaeafu yn ystod cyfnod o 25 mlynedd neu 50 mlynedd. Y rhagolwg cynhyrchu yw'r swm mwyaf o bren a fyddai mewn theori ar gael i'w gyflenwi pe baem yn torri ac yn teneuo'r holl goed ym mhob un o'n cynlluniau adnoddau coedwigoedd ar amser, ac i'r cyfaint a ragwelwyd. O ganlyniad, nid yw'r rhagolwg cynhyrchu yn sefydlog, ac mae'n newid wrth i'n cynlluniau adnoddau coedwigoedd gael eu hadnewyddu.

Cyhoeddir rhagolwg cynhyrchu Forest Research o'r sector coedwigaeth cyhoeddus a phreifat ym Mhrydain Fawr bob pum mlynedd ac mae'n rhoi syniad i fuddosddwyr o'r cyfaint posibl o bren sydd ar gael o goetiroedd Cymru.

Mae'r dull hwn yn sicrhau ein bod yn sicrhau cyflenwad cynaliadwy o bren a stociau carbon y tu hwnt i'r cynllun hwn ac yn gwella ein gallu i gyflawni mwy o werthoedd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar draws Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.

Nid yw'r diweddariad nesaf ar yr adroddiad rhagolwg cynhyrchu, a ddisgwylir ddechrau 2026, wedi'i gyhoeddi eto, felly ni allwn ymrwymo i ffigur cynaeafu cyfaint cynaliadwy. Fodd bynnag, ym mlwyddyn un y cynllun hwn, rydym eisoes wedi addo bod y cynnig gwerthu blynyddol ar gyfer y flwyddyn nesaf (826,000$m^3$) yn fwy na'r cyfartaledd ar gyfer y pum mlynedd blaenorol.

Byddwn yn cyhoeddi'r amrediad sydd ar gael ar gyfer cynaeafu am weddill y cyfnod cyn gynted ag y bydd y rhagolwg cynhyrchu ar gael. Bydd hyn yn cael ei ddylanwadu gan ddefnydd y farchnad er mwyn ein galluogi i barhau i gydbwyso ein hamcan o reoli coedwigoedd yn gynaliadwy.

Byddwn yn gwneud yn siŵr bod cynhyrchu pren yn parhau i fod yn amcan rheoli yn ein cynlluniau adnoddau coedwigoedd, wedi'i gydbwyso â'r angen i reoli Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn gynaliadwy.

Byddwn yn nodi cyfleoedd buddsoddi i alluogi mynediad at fwy o bren o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys cynllun gweithredu a chynigion ar gyfer y cyllid sydd ei angen.

## Camau gweithredu:

**CAM GWEITHREDU 3: Cynyddu cyfaint y pren sy'n cael ei gynaeafu o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.**

**CAM GWEITHREDU 4: Sicrhau bod cynhyrchu pren yn parhau i fod yn amcan sylweddol i Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, trwy ein cylch adnewyddu cynlluniau adnoddau coedwigoedd.**

**CAM GWEITHREDU 5: Parhau i ddarparu rhagolwg cynhyrchu pren cywir i lywio argaeledd yn y dyfodol a sicrhau buddsoddiad a thwf yn y diwydiant prosesu pren.**

**CAM GWEITHREDU 6: Datblygu cynllun gweithredu a chyfleoedd ariannu i gael mynediad at fwy o gyfaint o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.**

## Cwestiwn:

A yw'r cyfaint cynaeafu cynaliadwy arfaethedig (ar sail y rhagolwg cynhyrchu) yn cyd-fynd â gofynion y farchnad?

# Ein dull gwerthu a marchnata

Mae contractau pren yn ymrwymiad cydfuddiannol i gynaeafu, yn ddidwyll ac i amserlenni y cytunwyd arnynt, rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'n cwsmeriaid.

Bydd pren yn parhau i ddod i'r farchnad trwy ddau ddull contract sy'n cael eu hymarfer yn eang ac sydd wedi'u sefydlu – gwerthiant sefydlog a gwerthiant ar ymyl y ffordd.

- Mae gwerthiant sefydlog yn golygu bod perchennog y tir yn gwerthu'r coed sy'n dal yn y goedwig. Caiff y pren a gontractiwyd ei werthu fel pwysau amcangyfrifedig, ac mae'r cwsmer yn cymryd cyfrifoldeb am gwympo, echdynnu a chludo'r pren. Mae'r dull hwn yn caniatáu i'r cwsmer drosi coed yn gynhyrchion pren sydd fwyaf addas ar gyfer y marchnadoedd neu'r gofynion prosesu y'u bwriadwyd ar eu cyfer.
- Mae gwerthu ar ymyl y ffordd yn golygu bod y tirfeddiannwr yn cymryd y cyfrifoldeb am gynaeafu pren trwy ddarparwr contractau gwasanaeth, ac yn cyflwyno pren ar ymyl y ffordd. Mae hyn yn rhoi pwysau amcangyfrifedig o gynhyrchion penodol, i fanyleb a bennwyd ymlaen llaw, sydd ar gael o safle contract. Mae'r cwsmer yn gyfrifol am gasglu a chludo cynhyrchion o'r goedwig yn ddiogel.

Bydd y rhan fwyaf o'r pren yn parhau i gael ei gynnig fel gwerthiant yn ôl pwysau a anfonwyd gan mai'r dull hwn sy'n cynnig y cydbwysedd gorau ar hyn o bryd rhwng effeithlonrwydd cynaeafu a diogelwch yr ased cyhoeddus.

Cynigir y bydd rhwng 90% a 95% o gyfaint y pren a raglennwyd yn flynyddol yn cael ei werthu trwy werthiannau sefydlog. Mae hyn yn golygu bod cwsmeriaid yn gallu ymateb yn well i ofynion y farchnad, ychwanegu gwerth, a chefnogi twf adnodd y contractwr.

Byddwn yn parhau i gefnogi darpariaeth cynaeafu pren yn uniongyrchol mewn mannau lle rydym yn ystyried bod angen mwy o reolaeth uniongyrchol ar ein gwaith o reoli risg a diogelu'r rhaglen. Mae hyn hefyd yn helpu i gynnal sgiliau a sicrhau gwerth marchnadol pren. Bydd yr holl gynnyrch a adferir o gynhyrchiad cynaeafu uniongyrchol yn cael ei gynnig trwy werthiant ar ymyl y ffordd.

Bydd y cynllun hwn yn parhau ag egwyddor contractau sy'n seiliedig ar lennyrch. Mae hyn yn golygu bod maint a graddfa lleiniau contract yn cael eu pennu gan y llennyrch diffiniedig (ardaloedd cynaeafu diffiniedig) o fewn cynllun adnoddau coedwig cymeradwy. Ar adegau, rhoddir ystyriaeth i ddod â nifer o lennyrch i mewn i un contract, lle mae hyn yn cyflawni'r canlyniad gorau i'r adnodd coedwig, neu ganlyniad masnachol gwell.

Bydd proses brisio cyn gwerthu lawn yn cael ei chymhwyso i gontractau pren er mwyn sicrhau'r gwerth gorau. Bydd y broses brisio hon yn mabwysiadu egwyddor yr adferiad cynnyrch mwyaf posibl. Defnyddir hierarchaeth o gynhyrchion pren (gan ddewis adfer cynhyrchion pren a all ddarparu manyleb gwerth uwch ac oes wedi'i llunio i fod yn hirach) i bennu'r canlyniad gorau ar gyfer lot unigol. Felly, nid yw cynnig pren i'r farchnad yn gwarantu y bydd yr holl bren yn cael ei werthu.

## Camau gweithredu:

**CAM GWEITHREDU 7: Parhau gyda'r gwerthiant sefydlog fel y model contract a ffefrir ar gyfer cyflawni rhaglenni cynaeafu, gyda rhywfaint o gynaeafu cynhyrchiol uniongyrchol lle mae angen mwy o reolaeth.**

**CAM GWEITHREDU 8: Sicrhau bod hierarchaeth cynnyrch pren yn cael ei hystyried a'i chymhwyso wrth brisio, rhannu a marchnata lleiniau gwerthu.**

## Cwestiwn:

A ydych chi'n cytuno bod model contract gwerthiannau sefydlog ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn cynnig y cyfle gorau ar gyfer cynaeafu cynaliadwy, gwydnwch y farchnad, adfer cynnyrch a buddion net?

# Mecanweithiau gwerthu

Mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi canolbwyntio ar gyflwyno pedwar prif ddigwyddiad e-werthu, a gefnogir weithiau gan e-werthiannau dros dro i ymateb i ddigwyddiadau amgylcheddol neu newidiadau annisgwyl i raglenni.

Yn ystod y cynllun hwn ar gyfer 2027–2031, rydym yn cynnig cynnydd i bum digwyddiad e-werthu wedi'u cynllunio'r flwyddyn. Bydd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd a gwell cyfle i gwsmeriaid osod cynigion, ac yn cynnig hyblygrwydd i raglenni cynaeafu.

Bydd yr amserlen e-werthu a gyhoeddwyd yn sail i'r cynnig gwerthu blynyddol, wedi'i hategu gan gyfleoedd e-werthu dros dro llai ac achlysurol, os oes angen.

Cyhoeddir yr amserlen e-werthu ym mis Chwefror bob blwyddyn ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol, a bydd yn dangos dyddiadau cau pob gwerthiant. Bydd pob e-werthiant unigol yn cynnwys cyfnod ymweld o saith wythnos i ganiatáu i gynigwyr sydd am ymweld â'r safle sicrhau bod cynhyrchion sydd wedi'u cynnwys mewn llennyrch (ardaloedd diffiniedig) yn bodloni eu gofynion.

Yn ystod y cynllun, byddwn yn cynnal cynllun peilot ar ffurf arwerthiant byw ar-lein dros dro, i gynnig cyfleoedd prynu ychwanegol y tu allan i'r pum prif ddigwyddiad gwerthu.

Bydd gwerthiant ar y farchnad agored drwy dendr yn tybio dyfarniad i'r cynnig uchaf, gan gyflawni'r pris wrth gefn gan gwsmer cymwys sydd â hanes perfformiad da. Mae'r panel gwerthu yn cadw'r gallu i argymell dyfarniad i is-gynigydd mewn amgylchiadau lle mae cwsmer sy'n cynnig yn uwch yn peri risg o ran cymhwysedd, capasiti a/neu gyllid. Mewn amgylchiadau prin iawn, rydym yn cadw'r hawl i ddyfarnu llain bren yn uniongyrchol drwy

drafodaeth. Fel arfer, dyma pan mae angen brys i gwympo coed ar yr ystad, neu lle mae llain o bren wedi methu â gwerthu ar y farchnad agored.

Ar hyn o bryd, mae trefniadau contractiol yn dilyn egwyddor ‘gwerthu yn ôl pwysau’, gan gynnig y dull gorau o ddarparu cyfleustra a diogelwch. Rydym yn cydnabod y manteision posibl o fodel contract ‘gwerthu yn ôl cyfaint’ i’r gweithlu, drwy annog cynnydd cyflymach a galluogi anfonebu cyflymach. Byddwn yn archwilio mecanweithiau anfonebu a thalu yn seiliedig ar ddata o offer cynaeafu a chludo.

Rydym hefyd yn awyddus i brofi’r defnydd o fodelau contract cynaeafu integredig. Drwy ganiatáu i gwsmeriaid adeiladu eu cyfleusterau cynaeafu eu hunain, mae cyfle i alluogi gwelliannau diogelwch, a chaniatáu inni fuddsoddi ein hadnoddau peirianyddol mewn mannau eraill.

## Camau gweithredu:

**CAM GWEITHREDU 9: Marchnata pum digwyddiad e-werthu tendr agored y flwyddyn yn ystod cyfnod y cynllun hwn, a threialu gwerthiant ar ffurf e-arwerthiant byw.**

**CAM GWEITHREDU 10: Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i archwilio dulliau amgen o werthu pren ac yn treialu contractau gwerthu cynyddol, gwerthu yn ôl cyfaint, a chontractau integredig.**

## Cwestiynau:

A ddylid cynnal gwerthiannau pren yn bennaf drwy dendr agored?

Beth yw’r nifer gorau posibl o e-werthiannau agored y flwyddyn i gydbwyso cyflenwad a galw?

A fyddech chi’n cefnogi cyflwyno gwerthiant ar fformat arwerthiant byw, i ategu gwerthiannau tendr agored arferol, wedi’u rhaglennu?

Pa mor bwysig yw arloesedd contractau i’r sector (e.e. gwerthu cyfeiriedig, contractau cyflenwi dynodedig, cwsmeriaid yn cyflenwi cyfleusterau cynaeafu, gwerthiannau cyfeintiol)?

# Ein gwydnwch

Mae effaith newid hinsawdd yn cynyddu amlder a difrifoldeb bygythiadau i’n coedwigoedd trwy wyntoedd, sychder a thanau gwyllt, yn ogystal â bygythiadau plâu a chlefydau endemig ac epidemig. Mae’r digwyddiadau arwyddocaol hyn yn risg i raglenni cynaeafu blynyddol, a sefydlogrwydd marchnadoedd.

Byddwn yn ceisio sicrhau bod ein hymateb o ran cynhyrchu a marchnata pren i ddigwyddiadau fel y rhain yn gymesur ac yn ystyriol, gan anelu at gynnal y cyfaint a gynlluniwyd a pharhad y cyflenwad, ac osgoi gorgyflenwi. Bydd unrhyw gwympo adweithiol

neu ragofalus yn cael ei gyflawni'n bennaf trwy ymarfer tendro ar y farchnad agored o fewn y digwyddiadau gwerthu arfaethedig.

O ran ymateb i argyfwng, neu lle mae angen cwympo coed ar frys er mwyn sicrhau Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, byddwn yn amrywio trefniadau contractiol presennol neu'n defnyddio mecanweithiau dyfarnu uniongyrchol i reoli a lleihau'r risg i'r ystad.

Lle mae ymateb yn gofyn am gael gwared ar gyfaint pren sy'n fwy na'r cynhaeaf blynyddol a gynlluniwyd ar gyfer Ystad Goetir Llywodraeth Cymru (rhwng 735,000$m^3$ ac 835,000$m^3$ ar hyn o bryd), byddwn yn dwyn ynghyd grŵp o gynrychiolwyr y diwydiant. Byddant yn ystyried dull strategol o gynaeafu a marchnata'r pren i wneud y mwyaf o adferiad cynnyrch ac atal unrhyw ystumio posibl i farchnadoedd.

## Camau gweithredu:

**CAM GWEITHREDU 11: Byddwn yn datblygu cynlluniau risg hyblyg ar gyfer digwyddiadau arwyddocaol, trwy gydweithio â phrynwyr, contractwyr a phroseswyr.**

**CAM GWEITHREDU 12: Byddwn yn cyhoeddi datganiad ailstocio er gwydnwch ar gyfer y farchnad, gan gydweithio â Forest Research ar dreialon o rywogaethau conwydd cynhyrchiol ehangach.**

## Cwestiynau:

Pa mor effeithiol yw strategaethau marchnata cyfredol wrth ymateb i newidiadau yn y farchnad?

Pa mor hyderus ydych chi yn ein gallu i ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau hinsoddol a heriau i iechyd planhigion?

# Diogelwch

Mae gweithio mewn partneriaeth â'r sector coedwigaeth yn cynnig y cyfle gorau i nodi a rhannu tueddiadau digwyddiadau a gwella safonau diogelwch gweithredol yn ein gwaith cynaeafu a chludo.

Byddwn yn cefnogi'r diwydiant coedwigaeth ehangach drwy fentrau, gan gynnwys rhaglen ddatblygu "uwchsgilio i godi datblygiad", grwpiau cludo pren lleol, a diwrnodau diogelwch, iechyd a datblygu.

Byddwn yn parhau i gefnogi Cytgord Diogelwch y Diwydiant Coedwigaeth (FISA) trwy gydweithio a chynnal cynrychiolaeth ar weithgorau, cyfrannu at ganllawiau, a hyrwyddo ymgyrchoedd diogelwch.

Drwy broses gymhwyso cwsmeriaid, byddwn yn parhau i sicrhau bod pob cwsmer sy'n masnachu ac yn gweithredu ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn dangos cymhwysedd a sicrwydd o'u cyfraniad at amgylchedd gwaith diogel, safonau amgylcheddol da, cyflawni contractiol, a chydymffurfedd trafodiadol.

## Camau gweithredu:

**CAM GWEITHREDU 13: Gweithio mewn partneriaeth â'r sector coedwigaeth i hyrwyddo a gwella safonau diogelwch, iechyd a llesiant.**

## Cwestiynau:

Sut fyddech chi'n graddio arferion diogelwch cyfredol mewn gweithrediadau cynaeafu ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru?

Pa mor glir a theg yw'r meini prawf cymhwyso ar gyfer cwsmeriaid presennol wrth sicrhau safon ofynnol o ddiogelwch a chydymffurfedd, a galluogi gosod cynigion cystadleuol (Cymhwyster Gwerthu Pren a Holiadur Iechyd a Diogelwch)?

# Gweithio mewn partneriaeth

Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n weithredol â'r sector coedwigaeth a phrosesu pren i sicrhau bod rhaglenni'n cael eu cyfathrebu'n glir, drwy gydweithio'n ystyrlon â Llywodraeth Cymru, cwsmeriaid, partneriaid, grwpiau diwydiant a chymunedau.

Mae rhaglen adolygu'r cynlluniau adnoddau coedwigoedd yn gyfle pellach i randdeiliaid pren gyfrannu'n weithredol at reoli Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn gynaliadwy.

Bydd diwrnod i gwsmeriaid ym mis Chwefror bob blwyddyn yn lansio ein digwyddiadau ymgysylltu â chwsmeriaid. Yn y digwyddiadau hyn, byddwn yn rhannu'r datganiad blynyddol o gyflenwad pren o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru ac amserlen o ddigwyddiadau gwerthu arfaethedig ar gyfer y 12 mis nesaf. Bydd cyfle ar y diwrnod i drafod datblygiadau yn y dyfodol.

Rydym yn barod i ddarparu pren ardystiedig i'r diwydiant prosesu ac ymateb i'r galw cynyddol am bren o Gymru. Byddwn yn gweithio'n uniongyrchol gyda landlordiaid Tai ar y Cyd i sicrhau bod pren o Gymru ar gael ar gyfer cartrefi cynaliadwy. Byddwn yn ymgysylltu â phroseswyr, adeiladwyr a datblygwyr i ddatblygu cadwyni cyflenwi cynaliadwy y gellir eu tyfu'n gyflym o gynhaeaf pren pum mlynedd Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn cefnogi'r sector cludo pren drwy fentrau trafnidiaeth cenedlaethol a lleol, er mwyn sicrhau cludo diogel a chynaliadwy a rheoli effaith cludo pren ar gymunedau.

Byddwn yn casglu gwybodaeth am ofynion pren melinau a phroseswyr coed bach, micro ac arbenigol yng Nghymru. Nod hyn yw cefnogi'r gymuned hon yn well drwy ddarparu pren, naill ai'n uniongyrchol, neu drwy gadwyni cyflenwi presennol. Byddwn yn cefnogi mynediad at leiniau pren trwy gymhwystra cwsmeriaid unigol neu gwmnïau cydweithredol o fewn y gymuned melinau coed bychain/micro/arbenigol. Byddwn yn nodi ac yn sicrhau lleiniau unigol, llai o fanylebau priodol o fewn y rhaglen gynaeafu flynyddol, i'w gwerthu ar ochr y ffordd.

## Camau gweithredu:

**CAM GWEITHREDU 14: Parhau i ymgysylltu, rhannu a chydweithio'n weithredol â chwsmeriaid a rhanddeiliaid drwy ein rhaglen ymgysylltu â chwsmeriaid.**

## Cwestiynau:

Pa ymgysylltu pellach y gallem ei gynnal â'r sector i sicrhau bod ein gweithgareddau gwerthu pren yn cyflawni'r canlyniadau gorau?

# Adrodd ar berfformiad

Byddwn yn parhau i fonitro sefyllfa gwerthu rhag blaen gwerthiannau pren mewn contractau. Pan fo cyfeintiau o'r fath yn fwy na chyfanswm y cyflenwad blynyddol o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, efallai y byddwn yn ystyried amrywio'r rhaglen werthu trwy gynnig llai o gyfaint mewn gwerthiannau yn y dyfodol. Byddwn yn monitro ac yn cyhoeddi bob chwarter ein cyfaint o bren a werthwyd sydd eto i'w gynaeafu (sefyllfa gwerthu rhag blaen).

Yn ogystal ag adrodd ar dargedau cyfaint blynyddol ar lefel genedlaethol, bydd perfformiad cyflawni'r rhaglen gwerthu pren hefyd yn cael ei fesur fel dangosydd perfformiad allweddol blynyddol (cyfaint blynyddol) ar gyfer pob un o'r saith lle rhanbarthol.

Byddwn yn parhau i adrodd ar weithgareddau gwerthu a chynaeafu pren ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn erbyn perfformiad gwerthu pren yn flynyddol, bob pum mlynedd ac ar sail interim. Bydd hyn yn cynnwys:

- ystadegau pren blynyddol Forest Research ar gyfer Prydain Fawr
- ffigurau cynnig gwerthiant cyfaint diwedd blwyddyn i'r farchnad ar gyfer gwerthiannau coed ar ochr y ffordd a gwerthiannau sefydlog, ar sail genedlaethol a rhanbarthol
- safonau diogelwch ac amgylcheddol a pherfformiad cynaeafu pren ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru
- cyflawniad targedau ar gyfer ailblannu
- cyflawniad digwyddiadau gwerthu cyhoeddedig
- ymrwymiad i gyfaint a werthir rhag blaen
- ein hincwm o bren ar ddiwedd blwyddyn a ffigurau cyfaint a anfonwyd
- cyhoeddiad targedau cyfaint gwerthiannau blynyddol arfaethedig, mewn da bryd i alluogi'r sector i gynllunio
- cyflwyniad ystadegau risg cwsmeriaid (wedi'u cofnodi'n ddienw)
- cyhoeddiad cyfrifon ariannol coedwigaeth a reolir ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru drwy adroddiad a chyfrifon blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru

## Camau gweithredu:

**CAM GWEITHREDU 15: Ymrwymiad i adrodd data yn gyflym ac yn gywir er mwyn cynnal hyder y farchnad yn y cyflenwad.**

## Cwestiynau:

Pa ffactorau fyddai'n helpu i greu mwy o hyder yn y cyflenwad pren o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru?

A yw targedau dangosyddion perfformiad allweddol sy'n seiliedig ar gyfaint yn briodol ar lefel ranbarthol (lle)?

# Aliniad strategol

Mae cyfeiriad strategol ein gwerthiannau a'n marchnata pren yn Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â gweithgareddau masnachol eraill, wedi'i nodi yn y Strategaeth Twf a Gwerth ddrafft y cyfeirir ati yng nghyflwyniad y ddogfen hon. Gallwch ddarllen y strategaeth ddrafft yma. Yn ogystal, mae ein marchnata pren yn cyfrannu at Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Pren 2025: Gwneud i Bren Weithio i Gymru.

## Cwestiynau:

Pa mor dda mae'r Cynllun Gwerthu a Marchnata Pren hwn rhwng 2027 a 2031 yn cyd-fynd â'n hamcanion strategol, yn ogystal â chyflawni yn erbyn y camau gweithredu yn Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Pren 2025?

# Casgliad

Rydym yn falch o fod wedi rhannu ein Cynllun Gweithredu Gwerthu a Marchnata Pren drafft 202 i 2031 gyda chi ein staff, ein partneriaid, ein rhanddeiliaid, ein cwsmeriaid, ac aelodau ein cymunedau.

Rydym am ystyried eich barn a'ch syniadau cyn i ni gyhoeddi ein cynllun terfynol.  Y ffordd orau o rannu eich adborth gyda ni yw ar-lein. Gallwch hefyd gyflwyno eich barn drwy e-bostio timber.sales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu ffonio 0300 065 3000 (Llun-Gwener, 9am-5pm). Y dyddiad cau ar gyfer adborth yw 08 Mawrth 2026.